

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 16 Ionawr 2020 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Gwen Griffith

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Owen Pierce.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21

Tachwedd 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Y Cyng. Richard Fraser-Williams yn y broses o gael dyfynbrisiau gan contractwyr eraill ar gyfer cwblhau'r gwaith. Nodwyd fod yno rhai pren tebyg wedi cael ei gosod ym Meddgelert. Y Clerc i holi Cyngor Cymuned Beddgelert. Nodwyd Cyng. Gwen Griffith efallai fod yno grantiau ar gael i helpu gyda'r costau, Cyng. Dafydd Owen i holi Cyngor Gwynedd.
- 3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – nid yw'r Cyngor yn hapus gyda'r cynllun gan Cyngor Gwynedd, ac mae'r mater nawr yn un difrifol gyda nifer y plant yn cerdded i'r ysgol yn cynyddu, a bywydau mewn perygl. Y Clerc i drefnu ymweliad ar y safle gyda Cyng. Richard Fraser-Williams, Cyng. Gwen Griffith ac Iwan ap Trefor o Gyngor Gwynedd.
- 3.4** Ciciwr Calon Tregarth – y Clerc wedi archebu 3 arwydd, ond nid oedd yn bosib eu gosod ar noson yr hyfforddiant oherwydd tywydd garw. Nodwyd Cyng. Dafydd Owen y byddai'r arwyddion yn gael eu gosod ar ddydd Sadwrn, os yw'r tywydd yn caniatu.
- 3.5** Ciciwr Calon Neuadd Talgai – y Cyng. Mair Leverett wedi gael caniatad ar lafar gan yr Eglwys i osod y Ciciwr Calon o fewn cwrtill y Neuadd. Y Clerc heb glywed yn ôl gan Tomos Hughes o'r elusen ynglŷn a cael llun o cynllun tebyg. Cytunwyd

- y byddai Cyng. Mair Leverett yn yn danfon cynllun i'r Clerc, ac y byddai'r Clerc yn ei danfon ymlaen at y Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd.
- 3.6** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – nodwyd fod y bin newydd wedi cael ei osod.
- 3.7** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – cadarnhawyd fod y gwaith wedi gael ei gwblhau.
- 3.8** Nodwyd Cyng. Gwen Griffith fod dim arwyddion ar gyfer ciciwr calon Mynydd Llandygai. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai tebyg i'r rhai sydd yn Nhregarth.
- 3.9** Adroddwyd bod cyflwr Eglwys St Ann's yn warthus, bod yno goed yn tyfu drwy'r adeilad ac yn y tŵr. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn. Cadarnhawyd fod y coed sy'n gwyro dros y ffordd ochr isaf i'r giat wedi cael ei torri. Y Clerc i danfon llythyr i'r Eglwys i ddiolch am gwblhau'r gwaith. Mae'r coed ochr uchaf i'r giat dal yn gwyro dros y ffordd. Y Clerc i cysylltu gyda'r adran priffyrdd unwaith eto.
- 3.10** Is-bwyllgor Llwybrau a Ffosydd – cytunwyd y byddai'r is-bwyllgor yn cynnal cyfarfod cyn y cyfarfod Cyngor nesaf. Y Clerc i lunio ffeil llwybrau ar 'dropbox' a danfon y ddolen i aelodau'r is-bwyllgor.
- 3.11** Llecyn Tir, Bont Twr – Cadarnhawyd gan y Gofrestra Tir fod y tir hwn o dan berchnogaeth 'Welsh Slate' ar hyn o bryd. Y Clerc i danfon y gwaith papur sydd yn cadarnhau bod yr llecyn tir yma yn berchen i'r Cyngor Cymuned.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Ionawr 2020'

Cyflwynwyd: E-bost gan Cyran Jones, Rheolwr Prosiect Canolfan Cefnfaes – cytunwyd y byddai'r Cyng. Iwan Hywel yn cynrychiolydd ar y Grwp Llywio ar ran y Cyngor.

Cyflwynwyd: Cynllun Gor-yrru Mynydd Llandygai – pwynt 3.3 uchod.

Cyflwynwyd: Cais i'r Cyngor cefnogi'r 'Local Electricity Bill' – y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor, angen cadarnhau pa fath o gynllun yw hwn, ac os ydy'r cynllun hwn yn cynnwys Cymru.

5. Gwaith y mis

5.1 Nodwyd Cyng. Angharad Williams bod biniau ailgylchu dal yn broblem enfawr, yn enwedig ar Ffordd Tanrhiw yn Nhregarth. Nid yw'r contractwyr yn eu rhoi yn ôl o fewn y giatau, ac felly mae'r biniau yn gael ei chwythu ac yn gael ei difrodi, ac felly yn broblem gostus i Cyngor Gwynedd. Y Clerc i danfon ebost i nodi pryderon y Cyngor.

5.3 Lon Y Wern – dal tyllau ymhob man ar hyd y ffordd, angen sylw brys. Mae'r ffordd yn beryglus iawn i cerddwyr a beicwyr. Y Clerc i danfon ebost i'r adran Priffyrdd eto.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd fod Peter Roberts bellach wedi ymddeol o'r pwyllgor. Y Clerc i ysgrifennu llythyr i ddiolch am ei waith ac am bopeth mae wedi cyfrannu i'r gymuned dros y blynyddoedd.

Ysgol Bodfeurig – Adroddwyd bod y gwaith ail-wynebu yn yr ysgol wedi gael ei gwblhau.

Ysgol Tregarth – Adroddwyd fod Estyn yn cynnal archwiliad yn yr Ysgol wythnos nesaf.

Ysgol Llandygai – wedi gael cynnig llain bach o dir ger yr ysgol ar gyfer maes parcio, ond yn anffodus ddim hefo'r arian i'w brynu.

7. Cytundeb Gwasanaeth Clercio 2020-23

Cyflwynwyd llythyr ac adroddiad blynyddol y Bartneriaeth i'r aelodau. Cafwyd y cytundeb clericio rhwng y Cyngor Cymuned a Partneriaeth Ogwen ei gymeradwyo.

8. Archeb 2020-21

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £25,408.

9. Rhoddion

Penderfynwyd y bydd y rhoddion yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.

10. Parcio ger Llyn Ogwen

Dim i'w adrodd.

11. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

11.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr. Derbyniwyd yr adroddiad.

11.2 Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd.

12. Taliadau

Julian Johnson – rhodd ewyllys da – gwaith tacluso Pentref Llandygai £200.00

Llais Ogwan – hysbysebu ceisiadau am nawdd ariannol £36.00

13. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.
Penderfyniad: Holl ymghynghoriadau
drosodd

C19/0918/16/LL

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2
uned wyliau ynghyd a gosod tanc
septig newydd a pharcio
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

C19/0909/16/LL

Gateway Park, Ystad Ddiwydiannol
Llandygai, Bangor
Codi teras o unedau canolfan fasnach
gan gynnwys parcio a gwasanaethau
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/0884/16/LL

Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
Codi eistedd ar gyfer 100 o bobl a
mannau parcio newydd
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

NP3/16/AD23H

Canolfan Wardeiniaid, Nant Ffrancon
Gosod tri panel dehongli, un sgrin
gyffwrdd ynghlwm wrth ddrychiad
blaen adeilad APCE a dau yn sefyll ar
eu pennau eu hunain ar blinth cerrig
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

NP3/16/23G

Canolfan Wardeiniaid, Nant Ffrancon
Gosod obelisg dehongli carreg crwn,
fertigol
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/0898/16/LL

Bryniau Eithinog, Sling
Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau a
gosod cyfarpar pecyn trin carthion
Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru.

14. Ceisiadau Cynllunio

C19/0944/16/LL

1 Bryniau Terrace, St Ann's
Diwygio amod rhid 2 o ganiatad
cynllunio C19/0371/16/LL er mwyn
newid codiad to'r estyniad

Penderfyniad: Cefnogi

C19/1208/16/DT

20 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Codi estyniad unllawr to fflat yng
nghefn yr eiddo

Penderfyniad: Cefnogi

C19/1134/16/LL

Tyddyn y Felin, Felin Hen
Dymchwel y modurdy presennol a
chodi anecs yn ei le

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C20/0015/16/LL

Hughes Glass & Glazing, Ystad
Ddiwydiannol Llandygai
Dymchwel yr adeilad diwydiannol
presennol a chodi 5 uned
diwydiannol ysgafn newydd ynghyd
ac ail leoli'r fynedfa a darparu
llecynnau parcio

Penderfyniad: Cefnogi

15. Unrhyw fater brys arall

15.1 Absenoldeb Cyng. D V Jones – Mae'r cynghorydd dal i dderbyn triniaeth, felly penderfynwyd y Cyngor rhoi'r hawl iddo ddychwelyd i'w sedd pan mae'n barod.

15.2 Corff Llywodraethwyr Ysgol Tregarth – cytunwyd y byddai Cyng. Angharad Williams yn cynrychioli'r Cyngor.